# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 04 Ebrill 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae ef wedi eu cael gyda Gweinidogion y Trysorlys ynghylch Cynnig y Llywodraeth i werthu is-gwmni Tanwydd Niwclear Prydain, Westinghouse. (WAQ46558)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd canlyniad unrhyw drafodaethau y gallai'r Gweinidog fod wedi eu cael ynglyn â derbyn *Freeview* yng Nghymru. (WAQ46551)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd canlyniad unrhyw drafodaethau y gallai'r Gweinidog fod wedi eu cael ynglyn ag argaeledd Teledu Diffiniad-Uchel yng Nghymru o adeg ei lansio ym mis Mai 2006. (WAQ46552)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa dargedau y mae'r Gweinidog wedi eu pennu ar gyfer cynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus. (WAQ46547)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw newidiadau i gyllido asiantaethau busnes arolesol. (WAQ46548)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw newidiadau i dargedau y mae busnesau arloesol yn elfen anhepgor o'u darparu. (WAQ46549)

**Janice Gregory (Ogwr):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddenu mewnfuddsoddiad i etholaeth Ogwr. (WAQ46553)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at hyrwyddo adfywiad economaidd etholaeth Ogwr. (WAQ46554)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am gymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn etholaeth Ogwr. (WAQ46555)

**Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am greu swyddi yn etholaeth Ogwr. (WAQ46556)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Yn dilyn ei hateb i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 45119, 45123 a 45124, a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o'r £17 miliwn a ddyrannwyd i awdurdodau addysg lleol er 1999 ar gyfer gwasanaethau cerdd mewn ysgolion, gan roi manylion ynglyn â phryd y'i gwariwyd, ble y cafodd ei ddyrannu ac ar beth y'i gwariwyd. (WAQ46546)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** pa gymorth ariannol fydd ar gael i helpu Ysgol Gyfun Penyrheol i gwrdd â'r costau o orfod darparu trefniadau tymor byr ar gyfer y disgyblion ac i gwrdd ag unrhyw golledion nas yswiriwyd. (WAQ46550)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa astudiaeth a wnaed ynglyn ag asbestos mewn adeiladau ysgol yng Nghymru, a beth y mae Llywodaeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gael gwared ag ef. (WAQ46557)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn gan geidwaid dofednod bridiau prin a ffermwyr hobi ynglyn â brechu adar. (WAQ46542)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn am amddiffyn rhywogaethau dan fygythiad a gedwir mewn swau rhag ffliw adar. (WAQ46543)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gamau gweithredu a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod y cyllid ychwanegol a roddwyd gan y Gweinidog Hydref diwethaf ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei ddefnyddio gan BILlau i ddarparu gwasanaethau gwirioneddol ychwanegol, ac nid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer agweddau eraill ar wasanaethau iechyd. (WAQ46544)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i docio niferoedd staff yn y GIG. (WAQ46545)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud i ble y byddai'n rhaid i gleifion sy'n dioddef o ganser y brostad yn Sir Gaerfyrddin fynd i dderbyn triniaeth Brachy. (WAQ46559)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud a oes triniaeth uwchsain benodol, dwysedd uchel, ar gael i bobl sy’n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru. (WAQ46560)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad yn ôl amser aros, Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y rhai sydd ar restr aros am Therapïau Sglerosis Ymledol yng Nghymru. (WAQ46561)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl sy’n aros am Therapïau Addasu Clefydau ar gyfer Sglerosis Ymledol yng Nghymru. (WAQ46562)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa Comisiwn Iechyd Cymru o ran cyllido Therapïau Addasu Clefydau ar gyfer Sglerosis Ymledol yng Nghymru. (WAQ46563)